

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2011

Amser y cyfarfod:
13:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Pleidleisiau a Thrafodion

(9)

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

14.35

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

14.46

PWYNT O DREFN

Ar ôl i'r Llywydd ystyried ymhellach y pwynt o drefn a godwyd gan Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ynghylch sylwadau a wnaed gan Antoinette Sandbach, yr Aelod dros Ogledd Cymru, ar 22 Mehefin, atgyfnerthodd y dyfarniad fod Aelodau unigol yn gyfrifol am gynnwys a chywirdeb eu cyfraniadau. Os caiff y cyfraniadau hynny eu profi i fod yn anghywir, mae'r Llywydd yn disgwyl i Aelodau dynnu eu sylwadau yn ôl yn syth ac i ymddiheuro. Pan fydd Aelodau'n cael eu gwahodd i ymateb i Bwynt o Drefn, mae'n bosibl y byddant am egluro'u sylwadau. Fodd bynnag, nid cyfle yw hyn i ymestyn y ddadl ymhellach. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn a ddywedwyd, dylai Aelodau ymatal rhag gwneud unrhyw bwyntiau pellach, a darllen y Cofnod o'r hyn a ddywedwyd, unwaith y caiff ei gyhoeddi, i gadarnhau'r sylwadau.

Gwnaeth y Llywydd atgoffa'r Aelodau bod disgwyl iddynt ddangos parch at ei gilydd ac i fod yn gwrtais a bod disgwyl iddynt gydymffurfio â chyfarwyddiadau o'r Gadair. Er y dylai trafodaethau yn y Cynulliad fod yn rhai cadarn, dyfarnodd y Llywydd na ddylai unrhyw faterion bach am iaith, neu bwyntiau sy'n amherthnasol i'r drafodaeth dan sylw neu i'r cyhoedd, fod yn destun pwynt o drefn yn rheolaidd.

14.48

3. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011

NDM4745 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod fersiwn drafft Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mehefin 2011.

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

NDM4745 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod fersiwn drafft Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mehefin 2011.

Cynhaliwyd pleidlais y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 42 | 10 | 2 | 54 |

Gwrthodwyd y cynnig.

15.06

4. Dadl ar Wasanaethau Cymdeithasol

NDM4746 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod mai'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r weledigaeth sydd wedi'u pennu yn "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu" yw'r allwedd i gyflawni ein huchelgais ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru; ac

2. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac i arwain y rhaglen newid y mae gofyn ei chynnal er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fodloni anghenion a dyheadau ein dinasyddion.

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ym mhwynt 2, dileu'r geiriau 'parhau i fodloni' a rhoi 'bodloni' yn eu lle.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 25 | 0 | 29 | 54 |

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Dileu pwynt 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 14 | 0 | 40 | 54 |

Gwrthodwyd gwelliant 2.

Gwelliant 3 - Nick Ramsay (Mynwy)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod manteision defnyddio taliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hybu eu defnydd lle bo hynny'n briodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

Derbyniwyd gwelliant 3.

Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun cyflenwi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yn amlinellu ei hymrwymiad i ddatblygu ac arwain y rhaglen newid.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 43 | 0 | 11 | 54 |

Derbyniwyd gwelliant 4.

Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'n gyflym y defnydd o Gyllidebau Personol ar gyfer gwasanaethau gofal.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 14 | 0 | 40 | 54 |

Gwrthodwyd gwelliant 5.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

NDM4746 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod mai'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r weledigaeth sydd wedi'u pennu yn "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu" yw'r

allwedd i gyflawni ein huchelgais ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru; ac

2. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac i arwain y rhaglen newid y mae gofyn ei chynnal er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fodloni anghenion a dyheadau ein dinasyddion.

3. Yn cydnabod manteision defnyddio taliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hybu eu defnydd lle bo hynny'n briodol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun cyflenwi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yn amlinellu ei hymrwymiad i ddatblygu ac arwain y rhaglen newid.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

Derbyniwyd y cynnig.

15.57

5. Dadl ar yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen

NDM4747 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi'r ymdrech y mae'r Llywodraeth yn ei gwneud, drwy'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, i symud adnoddau oddi wrth swyddogaethau gweinyddol a chynorthwyol a'u trosglwyddo i reng flaen addysgu a dysgu, ac i wella perfformiad addysgol a chyflawniadau dysgwyr ledled Cymru.

2. Yn croesawu cyfraniad Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru i'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen.

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'gyda'r nod yn benodol o sicrhau bod plant sy'n gadael ysgol gynradd yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfri i'r safon ddisgwyliedig'

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i ystyried daearyddiaeth unigryw Cymru wrth ffurfio unrhyw gonsortia addysg rhanbarthol yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 44 | 0 | 10 | 54 |

Derbyniwyd gwelliant 2.

Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i fanteisio ar arbenigedd athrawon wrth ffurfio polisïau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

Derbyniwyd gwelliant 3.

Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod gweithio mewn ffordd amlasiantaethol yn hanfodol er mwyn gwella perfformiad addysgol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

Derbyniwyd gwelliant 4.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

NDM4747 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi'r ymdrech y mae'r Llywodraeth yn ei gwneud, drwy'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, i symud adnoddau oddi wrth swyddogaethau gweinyddol a chynorthwyol a'u trosglwyddo i reng flaen addysgu a dysgu, ac i wella perfformiad addysgol a chyflawniadau dysgwyr ledled Cymru gyda'r nod yn benodol o sicrhau bod plant sy'n gadael ysgol gynradd yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfri i'r safon ddisgwyliedig.
2. Yn croesawu cyfraniad Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru i'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen.
3. Yn cydnabod yr angen i ystyried daearyddiaeth unigryw Cymru wrth ffurfio unrhyw gonsortia addysg rhanbarthol yn y dyfodol.
4. Yn cydnabod yr angen i fanteisio ar arbenigedd athrawon wrth ffurfio polisïau.
5. Yn cydnabod bod gweithio mewn ffordd amlasiantaethol yn hanfodol er mwyn gwella perfformiad addysgol Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

Gwrthodwyd y cynnig.

16.43

Cyfnod pleidleisio

16.48

6. Dadl Fer

NDM4744 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Colli'r ffordd wrth bontio

Daeth y cyfarfod i ben am 17.20

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mercher, 29 Mehefin 2011